# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 01 Ionawr Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 10fed o Ionawr 2007 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur Arnallt D James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, Loreen Lewis, Annette Price, Peter Cowell, Betsan Jones, Carwyn James, June Gunter a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Keith Rees, E Audrey Jones a Delyth Richards

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 13eg O RAGFYR 2006.
Roedd gan y Cynghorwr Annette Price newidiad i wneud:-
2.2 deler cofnodion ddarllen ‘fod y Cynghorwr Annette Price yn pryderu am iechyd a diogelwch ynglyn ar wifriad hen’. Cytunwyd y Cynghorwyr i’r newidiad.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Annette Price fod cofnodion cyfarfod yr 13eg o Ragfyr 2006 yn gywir ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Llythyr wrth Gynghorwr Peter Cowell am ei Ymddiswyddiad
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gyda Gwasanaethau Etholiadol o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi dweud ni all y Cyngor Cymuned hysbysebu’r swydd wag gynghorydd tan fod Cynghorwr Peter Cowell wedi ymadael a’r Cyngor Cymuned.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans wedi cymeradwyo Cynghorwr Peter Cowell ar y gwaith mae ef wedi gwneud dros y blynyddoedd ynglyn â llwybrau troed ym Metws. Hefyd rhoddodd y Cynghorwyr ddiolch i Gynghorwr Peter Cowell.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.2 Eglwys Dewi Sant, Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Menna Roberts fod y goleuadau dal i fod ar y goeden tu allan i’r Eglwys. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod y goleuadau yn cael ei adael i fyny a bod yr Eglwys yn rhoi caniatâd.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Eglwys i weld os all y goleuadau cael ei adael i fyny dros gyfnod y gaeaf.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Lythyr a dderbyniwyd ynglyn â phrosiect Parc Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi heddiw wedi derbyn llythyr wrth Swyddog Grantiau o Barc Amanwy a dywedodd fod y Cyngor Cymuned “wedi dychwelid rhan 2 ffurflenni prosiect symud ymlaen, ac ar ôl gwneud ymchwiliad mewn i’r pris, maen nhw’n cadarnhau fod pob peth mewn trefn a'u bod nhw’n bodloni'r canllawiau caffaeliad a nawr gall y Cyngor Cymuned mynd ymlaen ar brosiect a gadael y contract”. Adroddodd y Cynghorwr Annette Price fydd y prosiect yn dechrau ym mis Ionawr os bydd y tywydd yn caniatáu.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.2 Adolygiad o Gyfleusterau Hamdden.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn llythyr arall wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â Rheoli Cyfleusterau Hamdden/gadw yn breifat ym Metws. Cadarnhaodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod ef wedi danfon y llythyr blaenorol a dderbyniwyd ym Mis Rhagfyr ymlaen i Gynghorwr Keith Rees felly allai cwblhau a dychwelyd y ffurflen.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn siarad gyda Chynghorwr Keith Rees i weld os yw ef wedi dychwelyd y ffurflen i Gyngor Sir Caerfyrddin.

3.3 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
1. Awdurdod Heddlu Dyfed Powys hysbysiad am gyfarfod cyhoeddus - rhoddwyd i Gynghorwr Menna Roberts.
2. Un Llais I Gymru - Pwyllgor Ardal Sir Caerfyrddin.
3. Cyngor Sir Caerfyrddin
• Nid fydd yna brawf cyfrifiad ym Metws yn ystod y flwyddyn hon.
• Gwelliant cynllunio i'r hawliau tramwy cyhoeddus - rhoddwyd i Gynghorwyr Peter Cowell, Annette Price ac Loreen Lewis.
• Cynllunio - Newidiad i gyfeiriad ar Heol Waungron, Betws.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi rhoi caniatâd i'r cais canlynol:-
E/15022 - Estyniad sengl wrth 14 Stryd Reis, Betws (26).

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai canlynol:-
E/14623 - ty gwydr i gefn y ty wrth 24 Parc Nant Y Felin, Rhydaman (19).
E/14563 - Garej ar wahân wrth 31 Parc Coetir, Betws (17).

4.3 E/471 – Datblygiad Preswyl, Gwaith Glo, Betws, Rhydaman
Trafodwyd y cais cynllunio uchod yn fanwl gan y Cynghorwyr. Gofynnodd y Cynghorwr June Gunter pa ganran o dai syn cael ei rhoi i'r ochr am bobl syn prynu am y tro cyntaf? Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price beth yw pris gwerthu'r tai a hefyd yw'r tai yn fforddio i'r bobl syn prynu am y tro cyntaf. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell nid oes yna ddarpariaeth o gael ardal siopa/ardal cyfleusterau o fewn yr ardal breswyl. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol yn cyfarfod ynglyn â rhwymedigaeth cynllunio, a dywedwyd fod rhaid i'r Datblygwyr profi i'r Awdurdod Cynllunio'r canlynol:-
Cyfleusterau Addysgol, Cyfleusterau Iechyd, Cyfleusterau Isadeiledd a Chyfleusterau carthffosiaeth/Cyfleusterau dwr wyneb.
Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell fod y Cyngor Cymuned yn cyfarfod gyda'r Swyddog Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at y Swyddog Cynllunio i ofyn a all penderfyniad ar y cais cynllunio gael ei wneud ar ôl i Gyngor Cymuned y Betws derbyn ymatebion yw sylwadau. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon sylwadau'r Cynghorwyr ymlaen i'r Swyddog Cynllunio a hefyd gofyn i'r Swyddog Cynllunio os gall ef gyfarfod ar Gyngor Cymuned i drafod y cais cynllunio hyn.

5. CYFRIFON.
1.Cyfarfodydd yng Nghapel Newydd (x7) £70.00
2.Lwfans y Gadeiryddes (2ail rhandal) £100.00
3.Cyngor Sir Caerfyrddin (cost o oleuo'r llwybrau troed) £285.30
4.Morgan a Morgan (offer swyddfa) £133.13
5.Eglwys Dewi Sant (Rhodd flynyddol at y gost o gynnal a chadw a
cost at y trydan am y goleuadau llif a hefyd am y goleuadau tymhorol) £50.00
6.Capel Newydd Betws (Rhodd flynyddol at y gost o gynnal a chadw a
cost at y trydan am y goleuadau tymhorol) £25.00
CYFANSWM £663.43

CYTUNWYD: I dalu’r biliau uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd Swyddog Cefnogi Cymunedol Yr Heddlu (SCCYH) Dan Garnell y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 5 arestiadau wedi ei wneud ynglyn â 3 trosedd a chofnodwyd yn ardal y Betws ym mis Rhagfyr.

Dywedodd y Cyngor Sir John D Evans ei fod ef wedi ysgrifennu at Trevor Sage o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â chylchfan/ croesfan ar Heol Ffowndri, Rhydaman. Mae ganddo nifer o pryderion ynglyn â gwelliant i ddiogelwch cerddwyr oherwydd bod traffic yn cyflymu allan o Heol Ffowndri. Nid yw ef wedi derbyn ymateb wrth Trevor Sage hyd yn hyn.

Gofynnodd y Cynghorwr Sir John D Evans os oes yna unrhyw symudiad ymlaen ynglyn â chael cyfarpar monitor traffic ar hyd Heol Pentwyn, Betws. Dywedodd SCCYH Garnell fydd yn mynd i siarad gydag Arolygydd Tony Ward.

Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans fod nifer o ddamweiniau wedi digwydd yn ddiweddar yn agos i’r Scotch Pine ar Heol y Mynydd. Mae Modurwyr yn gallu negodi’r grid gwartheg ond methu troi’r tro. Mae ef wedi cael cyfarfod safle gyda’r Adran Priffordd o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cadarnhau byddan nhw’n ceisio datrys y broblem yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cadarnhaodd SCCYH Garnell fydd yn mynd i siarad gyda Swyddogion Traffig ynglyn ar fater hyn.

Adroddodd y Cynghorwr Annette Price ei bod hi’n pryderu dros ben oherwydd bod gyrwyr loriau yn defnyddio ei ffôn symudol tra bod nhw’n gyrru ar hyd Heol Betws. Dywedodd SCCYH Garnell fod hyn yn broblem trwy’r Sir ynglyn â modurwyr i gyd, fydd yn siarad gydag Adran Traffig a hefyd Arolygwr Tony Ward.

Roedd Cynghorwr June Gunter yn pryderu oherwydd nid yw pedestraidd yn gallu cerdded ar hyd y palmant yn agos i fynedfa Heol Reis. Mae yna gerbyd sydd wedi parcio ar y palmant ac mae rhaid i gerddwyr cerdded ar yr hewl i fynd o amgylch y cerbyd. Cadarnhaodd SCCYH Garnell fydd yn edrych i mewn i’r mater hyn.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddwyd y Gadeiryddes ddiolch i SCCYH Garnell am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1. Llif ym Metws - Dywedodd fod eisiau gwneud rhywbeth sylweddol ynglyn ar dwr yn dod wrth Fynydd y Betws. Mae ef wedi dangos y ddau le i’r swyddog o Gyngor Sir Caerfyrddin.
2. Cysgod Bws - Dywedodd fod gwaelod y cysgod bws cyferbyn i’r tafarn ‘Plough and Harrow’ wedi cael ei rhoi i lawr. Fydd yn erlid yr adeilad y cysgod bws wythnos hyn.
3. Ffordd Fynediad I Gwatith Glo Betws - Mae ef yn pryderu fod eisiau gwella ffordd fynediad mewn I Waith Glo Betws.
4. Llif ar hyd Heol Maescware - Adroddodd fod ef wedi derbyn llythyr wrth y Swyddog Gorfodaeth sydd wedi dweud nid y llif ar hyd Heol Maescware yn priodoli i’r datblygiad newydd sydd wedi ei leoli ar hyd yr hewl hon. Mae Adran Dechnegol yn mynd i fonitor sefyllfa.

Trafodwyd y llif ar hyd Heol Maescware, Betws yn fanwl gan y Cynghorwyr ac roeddynt yn pryderu am y canlynol:-
• Mae eisiau cael archwiliad brys ar system ddraenio ar hyd Heol Maescware.
• Mae’r dwr yn rhedeg lawr Heol Maescware yn gyferbyn i’r ochr lle mae’r draeniau wedi ei leoli.
• Mae’r broblem o lif ar hyd Heol Maescware dim ond wedi codi ers bod y datblygiad preswyl

Golwg Y Mynydd wedi cael ei adeiladu.
Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn rhestri pryderion y Cynghorwyr. Hefyd awgrymodd Cynghorwr Anne Sizmur fod copi o'r llythyr a ddanfonwyd i Gyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddanfon ymlaen at Asiantaeth yr Amgylchedd. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin a hefyd danfon copi o'i llythyr ymlaen at Asiantaeth yr Amgylchedd.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddwyd y Gadeiryddes ddiolch i Gynghorwr Sir John D Evans am ei adroddiad.

8. PENDERFYNU'R CYLLID AM 2007/2008.
Roedd copi o'r gwariant blynyddol ar amcangyfrif am 2007/2008 wedi cael ei ddanfon i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Trafodwyd pob eitem ar y rhestr yn fanwl.

Cynigiodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr Arnallt James fod y Cyngor Cymuned yn gofyn am gyllid o £13,000 am y flwyddyn 2007/2008. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin am y ffigwr uchod.

9. DYFAIS LASER DATGELIAD CYFLYMDER YR HEDDLU.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn llythyr wrth Heddlu Dyfed Powys sydd yn ceisio cael ariannu i brynu dyfais laser dategiad cyflymer. Trafodwyd hyn yn fanwl gan y Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James a chytunwyd y Cynghorwyr fod y Cyngor Cymuned yn barod i gyfrannu at y gost o ddyfais laser dategiad cyflymder.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Heddlu Dyfed Powys i roi gwybod iddynt am benderfyniad y Cynghorwyr.

10. GOST O OLEUADAU.
Esboniodd y Cynghorwr Peter Cowell i'r Cynghorwyr fod y Cyngor Cymuned yn y gorffennol wedi rhoi taliad blynyddol i'r Eglwys at y gost cynnal ac at gost y trydan am y goleuadau llif, yn anffodus mae hyn wedi llithro. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod yna daliad blynyddol o £50 yn cael ei rhoi i'r Eglwys am y goleuadau llif a hefyd am y goleuadau tymhorol.
PENDERFYNWYD: bod daliad blynyddol o £50 yn cael ei rhoi i Eglwys Dewi Sant Betws.

Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones fod Capel Newydd Betws yn cael arian. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Annette Price fod yna daliad blynyddol o £25 yn cael ei rhoi i Gapel Newydd Betws at y gost cynnal am y goleuadau tymhorol.
PENDERFYNWYD: bod daliad blynyddol o £25 yn cael ei rhoi i Gapel Newydd Betws.

11. DOSBARTHU TAFLENNU/TAFLEN NEWYDDION.
Trafodwyd hwn yn fanwl gan y Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter fod taflen newyddion yn cael eu dosbarthu i breswylwyr y Betws yn ystod mis Mawrth. Daliwyd pleidlais ac roedd yna benderfyniad unfrydol fod y motion hyn yn cael ei basio.
PENDERFYNWYD: fod y Cyngor Cymuned yn dosbarthu taflen newyddion i'r preswylwyr Betws yn ystod mis Mawrth.

12. TIR GER HEOL Y FELIN, BETWS.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn cyngor wrth yr Adran Gyfreithiol o Gyngor Sir Caerfyrddin a ddarllenwyd i'r Cynghorwyr. Yn anffodus nid yw'r Cyngor Cymuned yn gallu mynd ymlaen ar fater hyn tan fod ymddiriedolwyr newydd wedi cael ei phenodi gan Ganolfan Gymuned Betws.

PENDERFYNWYD: y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Jones i ddweud wrtho am y cyngor cyfreithiol dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

13. ADRODDIADAU.
13.1 Meddygfa’r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr fod Cynghorwr Carwyn James, Cynghorwr Arnallt James a hi wedi bod yn bresennol ym Meddygfa’r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd cyn Cyfarfod mis Ionawr y Cyngor Cymuned. Nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd wedi bod yn bresennol yn y Feddygfa.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.